

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern,

Nos Lun, 26 Mawrth 2018

am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol:

Mr Adrian Jones-Cadeirydd **AJ**, Ms J Ferry **JF**, Mrs Bethan Hughes **BH**, Mrs Linda Jones **LJ**, Dr Edward Jones **EJ**, Mr Victor Owen **VO**, Mr OG Roberts **OGR**, Miss Jane Ann Roberts **JAR**, Mrs EAB Thomas **EABT**, Cynghorwr John Griffith **JG**, Ms RW Owen **clerc**.

Ymddiheuriadau: Mr A Ifan, Ms C Jones, Dr E Jones.

2. Datgan Diddordeb: **JG** ynglyn ac eitem 5.

3. Cofnodion Chwefror 2018 ac unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Nodwyd fod pawb wedi derbyn copiau o'r cofnodion. **EABT** yn cynnig eu bod yn gywir, **VO** yn eilio.

3.1 Nododd y clerc bod caniatad wedi ei dderbyn gan yr adran dai i osod y hysbysfwrdd newydd ac ei fod wedi ei archebu.

3.2 Nododd y clerc fod Rhun ap Iorwerth wedi codi pryderon y cyngor ynglyn a'r cysylltiad broadband yn y Cynulliad ac wedi derbyn ymateb gan Julie James **AS** yn nodi ei bod hi yn ymweld a Ynys Mon yn y dyfodol buan felly byddai cyfle i drafod ymhellach gyda hi.

3.3 Nodwyd fod llythur ymateb i'r pryderon parcio ger y feddygfa wedi ei dderbyn gan Dr David Williams yn cynnig rhoi hysbyseb yn y dderbynfa yn gofyn i gleifion fod yn wylidwrus lle maent yn parcio, ond hefyd yn nodi yn anffodus fod rhai trigolion yn parcio ym maes parcio y feddygfa sydd yn achosi trafferthion i ddoctoriaid a chleifion. Derbynwyd llythur ymateb hefyd gan **CSYM** yn nodi yn anffodus nid oes unrhyw bwerau cyfriethlon i arbed unigolion rhag parcio ar lon gyhoeddus.

Cyngor Cymuned Bodedern



4. Maes Chwarae/FFrindiau Bodedern.

Dim

5. Materion Cynllunio.

Cais 13C183F

Cais i bennu os oes angen caniatad blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol ar dir yn Bodlas, Bodedern.

Dim gwrthwynebiad.

6. Gohebiaeth.

6.1 Derbyniwyd ebost gan Mr Gareth Williams, Gohebydd Democratiaeth Lleol yn gwneud cais am gopiau o'r agenda a chofnodion bob mis. Nododd OGR fod rhain yn gyhoeddus yn barod, a cynnigwyd i gytuno ei gyrru iddo. Dim gwrthwynebiad.

7. Taliadau i'w gwneud.

Dim.

Cyngor Cymuned Bodedern



8. Unrhyw fater arall.

8.1 Nododd **JF** ei bod wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn dweud fod y biniau yn orlawn yn y fynwent ac fod dail wedi casglu wrth y giatau. Y clerch i gysylltu a CSYM i weld os oes modd cael bin ychwanegol neu mwy.

8.2 Nododd **JF** fod mwy o dyllau wedi ymddangos ar y lon tuag at Dalar, ond fod gwaith wedi cychwyn ar drin rhai tyllau yn y lon. Nodwydd **JG** yn anffodus oherwydd torriadau llym o 42% mae Adran Briffyrdd **CSYM** wedi gorfod wneud yn eu cyllideb mae pwysau mawr ar eu hadnoddau.

8.3 Nododd **JAR** fod codiad yn y treth cyngor am 18/19, ac holodd a oedd yn derbyn gwasanaeth ychwanegol am yr arian ychwanegol yma, ynteu codiad i geisio llenwi y bwlch yng nghyllideb CSYM oedd y codiad? Nododd **JG** nad oedd y grant sy'n cael ei roi i CSYM gan y Cynulliad yn ddigonol i ddarparu'r gwasanaethau yr hoffent ddarparu, ac bod rhaid edrych am hyd yn oed mwy o dorriadau ar gyfer y flwyddyn nesaf o £3.3 miliwn. Os na fyddai codiad yn y dreth cyngor byddai mwy o dorriadau mewn gwasanaethau.

8.3 Nododd y clerch byddai yn darparu map electroneg o'r fynwent dros y misoedd nesaf ac efallai byddai mwy o gerbydau thu allan i'r fynwent fwy aml na ddisgwilir.

9. Dyddiad cyfarfod nesaf.

23 Ebrill 2018

Cau 19:40.